SCHEDULE 3

Regulation 2(c)

AMENDMENTS TO FORM 3

**1.** In question 3.13, against the entries for both "Lwfans gweini" and "Lwfans byw i'r anabl", insert **"Nodyn 26C"**.

**2.** In questions 3.35 and 3.37—

(a) in the entry for "Taliadau cynllun pensiwn galwedigaethol neu breifat"—

(i) for "Taliadau cynllun pensiwn galwedigaethol neu breifat", substitute "Cyfraniadau cynllun pensiwn galwedigaethol neu bersonol"; and

(ii) against the entry, insert "**Nodiadau 41A a 41B**"; and

(b) after the entry, insert—

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfraniadau contract blwydd-dâl ymddeol: | £ .......... | £ .......... | **Nodyn 41C** |

**3.** After question 3.35, insert—

**3.35A** **A ydych chi, neu a yw'ch partner, wedi cael blaendaliad cyflog, neu fenthyciad, gan gyflogwr yn y 12 mis diwethaf?**

**Ydwyf/Ydyw** ☐ **(Ewch i 3.35B)**

**Nac Ydwyf/Nac Ydyw** ☐ **(Ewch i 3.36)**

**3.35B** **Rhowch y manylion, gan gynnwys a yw'r blaendaliad neu'r benthyciad wedi'i wario:**

| Chi | Eich partner |
|---|---|
| .................................................. | .................................................. |
| .................................................. | .................................................. |

**4.** For questions 3.40 and 3.41(**1**), substitute—

(**1**) Question 3.41 was amended by S.I.1995/857.

3.40 A ydych chi neu'ch partner yn cael pensiwn neu flwydd-dâl ymddeol o unrhyw fath? **Nodyn 43A**

Chi Ydwyf ☐ (Os ydwyf neu ydyw, ewch i 3.41) Nac ydwyf ☐ (Os nac ydwyf a nac ydyw, ewch i 3.41A)

Eich partner Ydyw ☐ Nac ydyw ☐

3.41 Rhowch fanylion yr holl bensiynau a thaliadau budd-dâl ymddeol yr ydych chi neu'ch partner yn eu cael **Nodiadau 40, 43A a 44**

| | Chi: Swm | Chi: Pa mor aml y caiff ei dalu | Eich partner: Swm | Eich partner: Pa mor aml y caiff ei dalu | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pensiwn galwedigaethol | £ ...... | .................... | £ ...... | .................... | **Nodyn 41A** |
| Pensiwn ar gyfer dioddefwyr erledigaeth Sosialwyr Cenedlaethol | £ ...... | .................... | £ ...... | .................... | **Nodyn 44A** |
| Pensiwn personol | £ ...... | .................... | £ ...... | .................... | **Nodyn 44B** |
| Blwydd-dâl ymddeol | £ ...... | .................... | £ ...... | .................... | **Nodyn 43A** |
| Pensiwn ymddeol | £ ...... | .................... | £ ...... | .................... | |
| Pensiwn atodol gweddw aelod o'r lluoedd arfog | £ ...... | .................... | £ ...... | .................... | **Nodyn 44C** |
| Pensiwn anabledd rhyfel (neu ddigolledigad oherwydd diffyg talu pensiwn o'r fath) | £ ...... | .................... | £ ...... | .................... | **Nodyn 44D** |
| Pensiwn gweddw rhyfel (neu ddigolledigad oherwydd diffyg talu pensiwn o'r fath) | £ ...... | .................... | £ ...... | .................... | **Nodyn 44D** |
| Pensiwn gweddw lluoedd arfog (neu ddigolledigad oherwydd diffyg talu pensiwn o'r fath) | £ ...... | .................... | £ ...... | .................... | **Nodyn 44E** |
| Tâl gweddw o dan yr Offerynnau Eithrio ("Dispensing Instruments") | £ ...... | .................... | £ ...... | .................... | **Nodyn 44F** |
| Pensiwn gweddw | £ ...... | .................... | £ ...... | .................... | |
| Pensiwn gweddw yn ôl y gyfradd atodol o dan y Cynllun Anafiadau Personol (Sifilwyr) | £ ...... | .................... | £ ...... | .................... | **Nodyn 44G** |
| Unrhyw bensiwn arall/ pensiynau eraill | £ ...... | .................... | £ ...... | .................... | |
| | £ ...... | .................... | £ ...... | .................... | |

3.41A A ydych chi neu'ch partner yn 60 oed neu drosodd?

Chi Ydwyf ☐ (Os ydwyf neu ydyw, ewch i 3.41B) Nac ydwyf ☐ (Os nac ydwyf a nac ydyw, ewch i 3.42)

Eich partner Ydyw ☐ Nac ydyw ☐

3.41B A ydych chi neu a yw'ch partner yn perthyn i gynllun pensiwn personol neu gynllun contract blwydd-dâl ymddeol na fyddwch chi na'ch partner yn cael incwm odano neu y byddwch chi neu'ch partner yn ildio incwm odano? **Nodiadau 41B a 41C**

Chi Ydwyf ☐ Nac ydwyf ☐

Eich partner Ydyw ☐ Nac ydyw ☐

(Ar gyfer pob cynllun o'r fath, dylech chi neu'ch partner (fel y bo'n briodol) lofnodi'r **Awdurdodiad** perthnasol ar ddiwedd Adran A Rhan 3.)

**5.** In question 3.43—

(a) delete the entries for "Budd-dâl analluedd" and "Budd-dâl salwch"; and

(b) insert in the appropriate place—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Budd-dâl analluogrwydd | £ ............ | ............ | £ ............ | ............ |

**6.** In question 3.45(**2**), in the entry entitled "Blwydd-daliadau"—

(a) after "Blwydd-daliadau", insert "(heblaw o dan gontract blwydd-dâl ymddeol)"; and

(b) against the entry, insert **"Nodyn 41C"**.

**7.** In question 3.49, for **"Nodiadau 51 a 52"**, substitute **"Nodiadau 51 a 51A"**.

**8.** Against question 3.52A(**3**), insert **"Nodyn 51B"**.

**9.** In question 3.52B(**4**), insert at the end—

Mae'r gofal yn cael ei ddarparu mewn ysgol neu sefydliad sydd wedi ei eithrio rhag cofrestru o dan Ddeddf Plant 1989 — **Nodyn 52** ☐ ☐

**10.** At the end of Section A, for **"EWCH I RAN 4 YN AWR", substitute—**

(**2**) Question 3.45 was amended by S.I. 1995/857.
(**3**) Question 3.52A was inserted by S.I. 1995/857.
(**4**) Question 3.52B was inserted by S.I. 1995/857.

**AWDURDODIAD**

**(Ar gyfer personau sy'n ateb "Ydwyf" neu "Ydyw" i gwestiwn 3.41B)**

Lle'r ydych chi neu'ch partner wedi ateb "Ydwyf" neu "Ydyw" i gwestiwn 3.41B, gall y bydd y Cyngor yn dymuno cael y wybodaeth bellach a ganlyn oddi wrth ddeiliad cronfa'r pensiwn ynglŷn â'ch cynllun pensiwn personol neu'ch contract blwydd-dâl ymddeol chi neu'ch partner:—

(a) lle bo pryniant blwydd-dâl o dan gynllun pensiwn personol wedi ei ohirio, swm unrhyw incwm sy'n cael ei godi o'r cynllun pensiwn personol;

(b) yn achos—

(i) cynllun pensiwn personol lle bo modd codi incwm, uchafswm yr incwm y gellir ei godi o'r cynllun; neu

(ii) cynllun pensiwn personol lle nad oes modd codi incwm, neu gontract blwydd-dâl ymddeol, uchafswm yr incwm a allai gael ei godi o'r gronfa petai'r gronfa'n cael ei dal o dan gynllun pensiwn personol lle byddai modd codi incwm,

wedi ei gyfrif gan neu ar ran deiliad cronfa'r pensiwn drwy gyfrwng tablau a baratoir o dro i dro gan Actiwari'r Llywodraeth sy'n briodol at y diben hwn.

Os ydych chi neu'ch partner (fel y bo'n briodol) yn fodlon i ddeiliad cronfa'r pensiwn ddarparu'r wybodaeth hon i'r Cyngor, llenwch yr awdurdodiad isod ar gyfer pob cynllun neu gontract o dan sylw.

Enw a chyfeiriad deiliad cronfa'r pensiwn: ...............................................................................

.............................................................................................................................................

Cyfeirnod neu rif polisi sy'n dynodi'r cynllun pensiwn personol neu'r contract blwydd-dâl ymddeol: ......................................................................................................................

.............................................................................................................................................

At ddiben y cais hwn, rwyf yn caniatáu i'm deiliad cronfa pensiwn ddarparu'r wybodaeth uchod i'r Cyngor mewn perthynas â'm cynllun pensiwn personol/contract blwydd-dâl ymddeol* a ddynodwyd uchod.

(*Dileër fel y bo'n briodol)

Llofnod: ........................................................ Dyddiad: ........................................................

Enw (mewn priflythrennau): ....................................................................................................

Cyfeiriad: ...................................................................................................................................

**EWCH I RAN 4 YN AWR**

**11.** For question 3.54, substitute

3.54 A yw'r cais yn cael ei wneud mewn perthynas â thŷ preswyl bywoliaeth eglwysig?

Ydyw ☐

Nac ydyw ☐ (Ewch i 3.57)

**12.** After note 26B(**5**), insert—

"**26C.** Dylech ateb "Ydwyf" neu "Ydyw" i'r cwestiwn hwn os yw taliad y budd-dâl hwn i chi neu'ch partner wedi ei atal, neu os yw swm y budd-dâl wedi ei leihau am eich bod chi neu'ch partner yn cael triniaeth am ddim fel claf mewnol o fewn ysbyty neu sefydliad tebyg (ond nid carchar na dalfa'r ifanc).".

**13.** After note 41, insert—

(**5**) Note 26B was inserted by S.I. 1995/857.

“**41A.** Ystyr “pensiwn galwedigaethol” yw unrhyw bensiwn neu daliad cyfnodol arall o dan gynllun pensiwn galwedigaethol ond nid yw’n cynnwys unrhyw daliad dewisol allan o gronfa a sefydlwyd i leddfu caledi mewn achosion penodol.

**41B.** Mae i “gynllun pensiwn personol” yr un ystyr ag yn adran 191 Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 gan gynnwys, yn achos enillwr hunan-gyflogedig, cynllun a gymeradwyir gan Fwrdd Cyllid y Wlad o dan Bennod IV Rhan XIV Deddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988.

**41C.** Ystyr “contract blwydd-dâl ymddeol” yw contract neu gynllun ymddiried a gymeradwyir o dan Bennod III Rhan XIV Deddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988.”.

**14.** At the end of note 42, add—

“Os ydych chi neu’ch partner yn gweithio mewn ysgol neu goleg neu mewn swydd lle ceir gwyliau ysgol neu gyfnodau tebyg pan nad ydych chi neu’ch partner yn gweithio, dylech ddiystyrru’r cyfnodau hyn—ac unrhyw gyfnodau eraill pan nad oes gofyn i chi neu’ch partner weithio—wrth gyfrif y nifer cyfartalog o oriau a weithir mewn wythnos.”

**15.** In note 43, for the words “daliadau a dalwyd” to the end, substitute “daliadau cynllun pensiwn neu flwydd-dâl ymddeol, a threth incwm, cyfraniadau yswiriant gwladol a TAW net a dalwyd. Ystyr “TAW net” yw gormodedd unrhyw dreth ar werth a dalwyd gennych chi mewn perthynas â chyflenwadau trethadwy a wnaed i chi, dros unrhyw dreth o’r fath a gawsoch chi mewn perthynas â chyflenwadau trethadwy a wnaethpwyd gennych chi, wedi ei gyfrif ar sail y 12 mis blaenorol.”.

**16.** After note 43, insert—

“**43A.** Ystyr “Blwydd-dâl ymddeol” yw taliad cyfnodol o dan gontract neu gynllun ymddiried a gymeradwyir o dan Bennod III Rhan XIV Deddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988.”.

**17.** For notes 44 to 44C(**6**), substitute—

“**44.** Rhowch y swm net os caiff eich pensiwn neu eich blwydd-dâl ymddeol ei drethu.

**44A.** Mae hyn yn golygu pensiwn a delir i ddioddefwyr erledigaeth Sosialwyr Cenedlaethol o dan unrhyw ddarpariaeth arbennig a wneir gan gyfraith Gweriniaeth Ffederal yr Almaen, neu unrhyw ran ohoni, neu gyfraith Gweriniaeth Awstria.

**44B.** Ystyr “pensiwn personol” yw pensiwn neu daliad cyfnodol arall o dan gynllun pensiwn personol o fewn ystyr adran 191 Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 gan gynnwys, yn achos enillwr hunan-gyflogedig, cynllun a gymeradwyir gan Fwrdd Cyllid y Wlad o dan Bennod IV Rhan XIV Deddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988.

**44C.** Telir pensiynau atodol i weddwon aelodau’r lluoedd arfog, er enghraifft: (i) lle mae’r weddw yn 40 oed neu drosodd; (ii) lle na all ei chynnal ei hun; neu (iii) mewn perthynas â rhai o blant ei diweddar ŵr.

**44D.** Crybwyllwch unrhyw bensiwn cyfatebol a dderbynnir o wlad y tu allan i Brydain Fawr. Dylech ateb y cwestiwn hwn hefyd os ydych yn cael digollediad oherwydd diffyg talu pensiwn o’r fath, beth bynnag y bo’i darddiad.

**44E.** Mae hyn yn golygu pensiwn sy’n daladwy i weddw o dan Orchymyn Pensiynau Gwasanaeth (Anabledd a Marwolaeth) Lluoedd Llyngesol, Milwrol ac Awyr Etc. 1983 i’r graddau y bo’r Gorchymyn hwnnw wedi ei wneud o dan Ddeddf Tâl a Phensiynau Llyngesol a Morol 1865 neu Ddeddf Pensiynau a Thâl Iwmoniaeth 1884, neu wedi ei wneud yn unig o dan adran 12(1) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol (Darpariaethau Amrywiol) 1977 ac unrhyw bŵer sydd gan Ei Mawrhydi i wneud darpariaeth bensiwn ar gyfer neu mewn perthynas â

(**6**) Notes 44A to 44C were inserted by S.I. 1995/857.

phersonau sydd wedi eu hanablu neu wedi marw o ganlyniad i wasanaethu fel aelodau o luoedd arfog y Goron.

Crybwyllwch unrhyw bensiwn cyfatebol a dderbynnir o wlad y tu allan i Brydain Fawr. Dylech ateb y cwestiwn hwn hefyd os ydych yn derbyn digollediad oherwydd diffyg talu pensiwn o'r fath, beth bynnag y bo'i darddiad.

**44F.** Gwneir y taliadau hyn i weddwon personau a laddwyd cyn 31 Mawrth 1973 ar wasanaeth cyfatebol i wasanaeth yn lluoedd arfog y Goron.

**44G.** O dan y Cynllun hwn, telir pensiynau a lwfansau i sifilwyr a anafwyd neu a laddwyd yn Rhyfel 1939–45 neu mewn perthynas â hwy.".

**18.** In note 51, at the end insert "Crybwyllwch ar wahân unrhyw dir yr ydych yn cael rhent amdano o dan brydles neu is-brydles bresennol.".

**19.** Renumber note 52(**7**) as 51A.

**20.** After note 51A, insert—

"**51B.** Dylech ateb "Nac ydwyf" i'r cwestiwn hwn lle darperir y gofal gennych chi neu'ch partner ar gyfer plentyn a enwyd yng nghwestiwn 3.20 a lle bo'r naill bartner yn codi tâl ar y llall am ddarparu'r gofal.

**52.** Yr ysgolion a'r sefydliadau eraill y cyfeirir atynt, sydd wedi eu heithrio rhag cofrestru o dan adran 71 Deddf Plant 1989 gan baragraffau 3 a 4 Atodlen 9 y Ddeddf honno, yw:

(a) gan baragraff 3 o Atodlen 9—

- ysgol a gynhelir neu a gynorthwyir gan awdurod addysg lleol;
- ysgol o dan reolaeth awdurdod addysg;
- ysgol y gwneir taliadau mewn perthynas â hi gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 100 Deddf Addysg 1944;
- ysgol annibynnol;
- ysgol a gynorthwyir â grant;
- ysgol a gynhelir â grant;
- ysgol hunan-lywodraethol;
- canolfan chwarae a gynhelir neu a gynorthwyir gan awdurdod addysg lleol o dan adran 53 Deddf Addysg 1944;

lle bo'r plentyn o dan sylw yn derbyn gofal o dan drefniadau gofal dydd a wneir gan y person sy'n cynnal y sefydliad fel rhan o'i weithgareddau neu gan weithiwr iddo yn y sefydliad sydd wedi ei awdurdodi i wneud y trefniadau hynny fel rhan o weithgareddau'r sefydliad; a

(b) gan baragraff 4 o'r Atodlen honno—

- cartref plant cofrestredig;
- cartref gwirfoddol;
- cartref cymunedol;
- cartref gofal preswyl, cartref nyrsio neu gartref nyrsio meddwl y mae gofyn eu cofrestru o dan Ddeddf Cartrefi Cofrestredig 1984;
- un o ysbytai'r gwasanaeth iechyd;

(**7**) Note 52 was amended by S.I. 1995/857.

— cartref a gaiff ei ddarparu, ei gyfarparu a'i gynnal gan yr Ysgrifennydd Gwladol;

lle bo'r plentyn o dan sylw yn derbyn gofal o dan drefniadau gofal dydd a wneir gan yr adran, yr awdurdod neu'r person arall sy'n cynnal y sefydliad fel rhan o'i weithgareddau neu gan weithiwr yn y sefydliad sydd wedi ei awdurdodi i wneud y trefniadau hynny fel rhan o weithgareddau'r sefydliad.".